Ymgyrch Cewynnau Go Iawn

Clecs Cewynnau

Rhagfyr 2008

Yn y rhifyn hwn:

Llongyfarchiadau
Wythnos Cewynnau Go Iawn 2009
Adroddiad Newydd Defra
Arbedion gyda Chewynnau Golchadwy
Undebau Credyd
Gwirfoddolwyr ac Asiantau
Cynhadledd Bydwreigiaeth
Cysylltwch â ni

Llongyfarchiadau

I Natalie oedd yn arfer rhedeg yr Ymgyrch Cewynnau Go Iawn. Rhodd enedigaeth i fachgen bach o'r enw Aiden ym mis Tachwedd. Yn ogystal â hynny, mae yna aelod newydd yn y tîm cewynnau go iawn i fyny yn Wrecsam. Mae Linda ein gwirfoddolwraig wedi cael bachgen hefyd a'i enw e yw Jac. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonyn nhw.

Wythnos Cewynnau Go Iawn 2009

Dyma adeg y flwyddyn pan fydd y rhai ohonom sydd yn glwm wrth yr Ymgyrch Cewynnau Go Iawn yn dechrau meddwl am Wythnos Cewynnau Go Iawn 2009. Rhoddaf wybod i bawb pan fydd dyddiad wedi'i bennu (mwy na thebyg yn wythnos olaf mis Ebrill) ond nodyn bach yw hwn – amser i ni ddechrau meddwl am ba fath o ddigwyddiadau y gallwn eu trefnu.

Mae Wythnos Cewynnau Go Iawn bob amser yn gyfle da i bwysleisio manteision cewynnau golchadwy i rieni mewn ffordd anffurfiol gyda thipyn o hwyl.

Gall yr Ymgyrch helpu gyda'ch gweithgareddau wythnos cewynnau go iawn – o ran ei threfnu, datganiadau i'r wasg ac o bosibl helpu ar y diwrnod.

Mae gweithgareddau yn y gorffennol wedi cynnwys Nappuccinos, sioeau ffasiwn, arddangosfeydd cewynnau mewn llyfrgelloedd lleol, ysbytai a siopau, siarad mewn dosbarthiadau NCT lleol neu grwpiau Mam a'i Phlentyn a stondinau stryd sy'n codi ymwybyddiaeth.

Ffoniwch neu e-bostiwch ni gydag unrhyw syniadau, mae angen i ni gasglu gwybodaeth am bob math o weithgaredd a'i rhoi ar ein gwefan – dyma lle bydd newyddiadurwyr yn mynd i gael gogwydd lleol.

.Adroddiad newydd yn canfod y gall cewynnau golchadwy fod yn well i'r amgylchedd.

Mae adroddiad newydd a gomisiynwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Asiantaeth yr Amgylchedd a Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2008, yn dweud y gall rhieni sy'n defnyddio cewynnau golchadwy, yn golchi gyda llwyth llawn, yn sychu cewynnau ar y lein ac yn eu hailddefnyddio ar blentyn arall ostwng effaith cynhesu byd-eang o 40% neu ryw 200kg o garbon deuocsid dros y ddwy flynedd a hanner.

Rydym ni yn Ymgyrch Cewynnau Go Iawn yn meddwl ei bod yn wych o beth fod yr adroddiad hwn wedi gwneud y sefyllfa'n glir i rieni ynglŷn â sut y gallant leihau eu hôl traed carbon trwy ddefnyddio cewynnau golchadwy yn hytrach na rhai tafladwy. Gallant wneud hyn trwy ddewis offer sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, peidio â golchi dros 60°c a sychu mewn peiriant cyn lleied â phosibl. Mae'r neges y gallwn ei rhoi i rieni'n glir – a bwrw eu bod yn dilyn canllawiau syml – sef y gall fod manteision arwyddocaol i'r amgylchedd trwy leihau nwyon tŷ gwydr a lleihau faint o wastraff tŷ sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Arbedion gyda Chewynnau Golchadwy

Roedd adroddiad diweddar Defra (uchod) yn cynnwys llawer o wybodaeth am faint o ynni mae cewynnau golchadwy yn ei ddefnyddio. Rwyf wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf yma i edrych eto ar gymharu prisiau cewynnau golchadwy â rhai tafladwy.

Pe byddech yn defnyddio peiriant golchi a sychu canolig, golchi ar 60°c, defnyddio peiriant sychu dillad cymaint o weithiau â'r cyfartaledd cenedlaethol (i sychu 30% o'ch golch) a defnyddio powdr golchi brand siop, cyfanswm cost golchi cewynnau go iawn fyddai £124.80 dros 2.5 flynedd, dim ond 96c yr wythnos yn ychwanegol am 3 golch ychwanegol.

Rwyf wedi cynnwys y cyfrifiadau yma yn y cylchlythyr.

Cyfanswm cost defnyddio cewynnau go iawn

Cewynnau sgwâr Terry – Mothercare £48.96, cyfanswm cost o £173.76, neu £1.34 yr wythnos.

Cewynnau plyg-parod gwastad – Junior Joy £175.00, cyfanswm cost o £299.80 neu £2.31 yr wythnos.

Wedi'u siapio – Bamboozles nippa £232.00, cyfanswm cost o £356.80 neu £2.75 yr wythnos.

Poced – Wonderoos £230, cyfanswm cost o £354.80 neu £2.73 yr wythnos.

Un-darn – MotherEase gan ddefnyddio maint bach a chanolig yn unig £479.60, cyfanswm cost o £604.40 neu £4.65 yr wythnos.

Costau Cewynnau Tafladwy.

Huggies cyfanswm o £700 neu gost wythnosol o £5.38

Pampers cyfanswm o £750 neu gost wythnosol o £5.77

Shops Own cyfanswm o £525 neu gost wythnosol o £4.04

Undebau Credyd

Mae Undebau Credyd (UCau) yn ddefnyddiol dros ben i'r Ymgyrch Cewynnau Go lawn yng Nghymru felly rydym wedi cynnwys peth gwybodaeth amdanyn nhw yn y cylchlythyr hwn yn y gobaith y gallwch helpu hybu eu defnyddio nhw i'ch rhieni chi. Trwy helpu hybu UCau gallwn roi dewis ehangach i rieni o ran sut maen nhw'n talu am eu cewynnau. Hefyd, mae UCau yn rhoi cyfle i bobl ar incwm isel neu heb incwm i brynu cewynnau go iawn – gan ddileu'r rhwystr o dalu ymlaen llaw sy'n cael ei gysylltu â nhw. Mae hyn yn bwysig iawn i ni gan fod y grwpiau hyn o bobl, yn draddodiadol, wedi cael eu rhwystro rhag prynu cewynnau golchadwy ond bellach mae ffordd o ymgysylltu â nhw fel eu bod yn gallu mwynhau manteision ariannol defnyddio cewynnau go iawn hefyd.

Mae UCau yn fentrau cydweithredol ariannol dan berchenogaeth a rheolaeth eu haelodau. Maen nhw'n cynnig cynilion a benthyciadau gwerthfawr iawn sy'n lleol ac yn foesegol. Erbyn hyn, mae llawer o undebau credyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys budd-daliadau uniongyrchol, ISA's a Chronfeydd Ymddiriedolaeth Plant.

Ar gyfartaledd, caiff rhieni fenthyca £200 i brynu eu cyflenwad o gewynnau golchadwy a thalu yn ôl ar gyfradd o tua £4.50 yr wythnos am 12 mis. Mae hynny'n rhatach na phrynu rhai tafladwy wedi'u brandio bob wythnos! Mae benthyciadau UC ar gael i bawb ond bydd yr UC yn gwirio i wneud yn siŵr y gall rhieni fforddio'r ad-daliadau cyn cynnig benthyciad.

Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru UCau ac mae manylion am y benthyciadau maen nhw'n eu darparu yn adran 'Eich Ardal' Gwefan Cewynnau Go lawn. Rwyf wedi siarad â phob un o'r UCau sy'n cael eu rhestru ar y wefan ac anfon posteri atyn nhw i gyd er mwyn helpu hysbysebu'r cynllun ac rwy'n siŵr byddan nhw'n fwy na bodlon anfon taflenni atoch chi os oes angen rhai arnoch. Cyn bo hir, byddwn ni'n cynllunio posteri i helpu hybu defnyddio UCau i brynu cewynnau golchadwy i'w defnyddio mewn ysbytai a llefydd cyhoeddus eraill. Rhod-daf wybod i bawb pan fyddan nhw ar gael.

.



Asiantau a Gwirfoddolwyr

Mae gennym 2 asiant newydd yn helpu i hybu cewynnau golchadwy yng Nghymru. Mae Gayle Lister o Sir Benfro wedi ymuno â'r tîm BabyKind. Mae Gayle sy'n fam i Edward yn cyfaddef ei bod yn dwlu ar gewynnau ac mae'n gweithio gyda Rhwydwaith Cewynnau Go Iawn Sir Benfro.
Mae Katie Millard yn rhan o dîm Bebeco. Mae Katie yn byw yng Nghaer ond mae'n gweithio yn Wrecsam a Sir y Fflint ac mae'n frwd iawn dros helpu lledu'r gair.

Cynhadledd Bydwreigiaeth

Mynychais i'r gynhadledd bydwreigiaeth ddiweddar yn Llandrindod ar ddiwedd mis Hydref. Roedd stondin gan yr Ymgyrch ynghyd â grwpiau eraill yn y neuadd.
Roedd yn fodd i fi roi llawer o 'Daclau Cewynnau Go Iawn' i fydwragedd a ddangosai ddiddordeb – roedd gan rai ddiddordeb yn yr eco-gewyn Stork i wardiau ysbytai. Diolch i'r holl fydwragedd a rodd o'u hamser i ddod i'n gweld ni ac os na chawsoch chi'r cyfle, yna mae croeso mawr i chi gysylltu â fi unrhyw bryd.

Cyfarchion y Tymor

Rydym yn gwybod ei bod hi braidd yn gynnar ond gan nad yw'r rhifyn nesaf o Clecs Cewynnau i fod i ymddangos tan fis Mawrth, hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd a manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd am ein helpu ni i ledu'r gair am fanteision cewynnau golchadwy.

Cysylltwch â ni…

Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw beth sydd wedi cael ei drafod yn y cylchlythyr hwn, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni neu ymweld â'n gwefan. Os ydych chi wedi trefnu unrhyw ddigwyddiadau yn eich ardal chi, rhowch wybod i ni a byddwn ni'n eu hychwanegu i'r wefan.

www.realnappies-wales.org.uk

0845 456 2477

recycle for Wales
ailgylchu dros Gymru
www.wasteawarenesswales.org.uk

Sustainable Wales
Cymru Gynhaliol